Hawdd ei Ddeall

Disability Arts Cymru
A work of art
Creu Celf

# Rhoi ein hawliau creadigol i ni

## Yr hyn sydd angen ei wneud yn ein barn ni i sicrhau y gall pobl anabl gymryd rhan mewn bywyd creadigol

Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan **Celfyddydau Anabledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Rhoi ei'n Hawliau Creadigol i ni:**
**Maniffesto Diwylliannol a Rhyngwladol Pobl Anabl"**

**Tachwedd 2021**

disability wales
anabledd cymru

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cyflwyniad

Ni yw **Celfyddydau Anabledd Cymru**.
Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda:



- **Cyngor Celfyddydau Cymru**
- **Celfyddydau Rhyngwladol Cymru**
- ac **Anabledd Cymru**




Gyda'n gilydd, rydym wedi bod yn edrych y mewn i'r **UNCRDP.**



Mae **UNCRPD** yn sefyll am
**Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.**

Mae'n ddogfen ysgrifenedig sy'n dweud yr hyn y dylai llywodraethau ei wneud i sicrhau bod gan bobl anabl yr un hawliau ag eraill.




Mae 50 o brif syniadau yn yr **UNCRPD**.
Maen nhw'n cwmpasu hawliau pobl anabl ym mhob agwedd ar fywyd, o drafnidiaeth i dai.




Mae llawer o wledydd wedi ymuno â'r **UNCRDP**,, gan gynnwys y DU. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cytuno i ddilyn y syniadau yn yr **UNCRDP**.



Ond teimlwn nad ydym bob amser yn gweld y syniadau yn yr **UNCRDP** yn gweithio i bobl anabl mewn bywyd bob dydd.



Credwn fod pobl anabl yn aml yn cael eu gadael ar ôl pan ddaw'n fater o fywyd creadigol.



Pan fyddwn yn dweud bywyd creadigol, rydym yn golygu pethau fel teledu a ffilmiau, sioeau theatr, dawns, paentio, ffotograffiaeth a barddoniaeth.

# Beth wnaethon ni



Yn y gwaith hwn, fe wnaethom ganolbwyntio ar **2 syniad gan** yr **UNCRPD** yn ymwneud â:

- bywyd creadigol
- a chysylltu â phobl o bob cwr o'r byd.



Mae **syniad rhif 30** yn dweud bod gan bobl anabl yr hawl i fod yn rhan o'r celfyddydau a diwylliant lle maen nhw'n byw.



Mae **syniad rhif 32** yn dweud bod gan bobl anabl yr hawl i allu cysylltu â phobl o wledydd eraill.



Ym mis Hydref 2021, gofynnwyd i bobl anabl o bob cwr o Gymru ddweud wrthym a oeddent yn teimlo bod ganddynt yr hawliau hyn.



Cymerodd pobl ran mewn arolwg ar-lein ac mewn grwpiau ffocws.



Buom yn siarad am yr hawliau hyn. Cytunwyd ar 9 prif argymhelliad i'w rhoi i Lywodraeth Cymru.


# Ein hargymhellion




1. Cynnwys y syniadau o'r **UNCRDP** mewn cyfreithiau yng Nghymru.



2. Dilyn y **model cymdeithasol o anabledd** yn yr holl waith gyda phobl anabl. Bydd hyn yn sicrhau nad oes unrhyw rwystrau sy'n atal pobl anabl rhag cymryd rhan.




Mae'r **model cymdeithasol o anabledd** yn ffordd o edrych ar bethau a gwneud pethau. Mae'n dweud nad yw person yn anabl oherwydd ei nam neu ei wahaniaeth.

Mae person yn cael ei anablu gan bethau yn ein cymdeithas. Fel adeilad heb ramp ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.



3. Sefyll dros hawliau pobl anabl i fod yn rhan o fywyd creadigol ar draws holl sefydliadau'r llywodraeth.




4. Gwneud Iaith Arwyddion Prydain yn iaith swyddogol ar draws holl sefydliadau'r llywodraeth yng Nghymru.




5. Gwneud i sefydliadau sy'n cael arian cyhoeddus ysgrifennu a dilyn **Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb.**



Dylai'r cynlluniau hyn sicrhau bod y sefydliadau'n meddwl am anghenion pobl anabl. A chymryd camau i sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael mynediad i'w gwaith.




6. Gwneud yn siŵr bod cyllid sy'n cefnogi pobl anabl i gymryd rhan. Gwneud yn siŵr bod digon o gefnogaeth i bobl anabl ddefnyddio'r cyllid hwn.



7. Cefnogi **rhaglen Arweinwyr Diwylliannol Pobl Anabl a Phobl Fyddar.** Bydd hyn yn cefnogi pobl anabl i gymryd rhan ym mhob rhan o fywyd cyhoeddus.



8. Gwneud mwy o gyfleoedd i bobl anabl a phobl fyddar gymryd rhan mewn prosiectau a gwaith sy'n digwydd mewn gwledydd eraill. Gwneud hyn drwy ariannu a chysylltu pobl.



9. Dewis pobl anabl a phobl fyddar i gymryd rhan mewn gwaith a phrosiectau mewn gwledydd eraill.



Byddwn yn rhoi'r argymhellion hyn i Lywodraeth Cymru ar **3 Rhagfyr 2021**.



Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod yr argymhellion hyn yn digwydd dros y flwyddyn nesaf.



I gael rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn, cysylltwch â ni:

**Gwefan:** www.disabilityarts.cymru

**E-bost:** post@dacymru.com

**Ffôn:** 02920 001293 **neu** 07726 112784

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthym beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, cliciwch yma.